Ehangu Adeiladu Dyfodol Disgleiriach mewn Technoleg yng Nghymru

Mae cynllun llwyddiannus iawn Adeiladu Dyfodol Disgleiriach mewn Technoleg yn dychwelyd yn 2018 gyda dau ddigwyddiad newydd sbon i hyrwyddo llwybrau gyrfa yn y diwydiant technoleg.

Yn dilyn llwyddiant y digwyddiad cyntaf yn Techniquest yn 2017, caiff y digwyddiadau rhad ac am ddim hyn a gaiff eu rhedeg gan Academi Codez mewn partneriaeth gyda Technocamps a Llywodraeth Cymru eu cynnal yn Neuadd Reichel, Bangor ar Ddydd Gŵyl Dewi (1 Mawrth) a byddant hefyd yn cyrraedd Gwesty'r Marriott, Abertawe ar Ddiwrnod Rhyngwladol Menywod (8 Mawrth).

Gyda chefnogaeth eisoes wedi ei sicrhau gan Gemma Hallet, sefydlydd miFuture, a BT Cymru, bydd Adeiladu Dyfodol Disgleiriach mewn Technoleg yn agored i unrhyw un dros 16 oed sydd â diddordeb mewn dysgu am gyfleoedd gyrfa mewn technoleg gan arbenigwyr yn eu meysydd.

Yn ystod y digwyddiadau, bydd y sawl sy'n mynychu yn cael cyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithdai a gyflwynir gan swyddogion proffesiynol profiadol yn y diwydiant technoleg yn ymwneud â datrys problemau, HTML, presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a dechrau eich taith i dechnoleg. Gobeithir y bydd y gweithdai hyn yn ateb cwestiynau cyffredin ac yn helpu i chwalu rhwystrau ar gyfer y rhai sy'n ystyried symud i swyddi technoleg.

Dywedodd Dean Jenkins, Sefydlydd Academi Codez: "Roedd ein digwyddiad cyntaf yn llawer mwy llwyddiannus nag oeddem wedi ei ragweld i ddechrau - roedd y nifer a fynychodd a'r adborth yn hollol wych a gwnaeth hynny bawb ohonom yn falch iawn. Dyna pam ein bod wrth ein bodd i fedru dod â Dyfodol Disgleiriach mewn Technoleg i rannau eraill o Gymru, yn cynnwys y Gogledd ac Abertawe. Mae hyn yn golygu y gallwn gefnogi ac annog mwy o bobl, yn neilltuol fenywod sy'n ystyried newid gyrfaoedd, efallai ar ôl cael plant.

"I mi, mae llwyddiant ein digwyddiad dechreuol yn dangos yr angen gwirioneddol am gefnogaeth ychwanegol i'r rhai sy'n dymuno cymryd llwybr gyrfa mewn swyddi technoleg. Edrychwn ymlaen yn fawr at gyflwyno dau ddigwyddiad newydd yng Nghymru ar Ddydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

"Ein prif nod gyda'r digwyddiadau hyn yw helpu mwy o bobl i ganfod eu traed yn eu gyrfa, yn arbennig y diwydiant technoleg, a helpu Cymru i ddod yn wlad lewyrchus gyda diwydiant technoleg cryf sy'n cynnig llwyth o opsiynau swydd."

Caiff digwyddiadau hefyd eu cefnogi gan BT Cymru. Wrth siarad am y digwyddiadau, dywedodd Alwen Williams, Cyfarwyddwr BT Cymru: "Roedd yn anhygoel cymryd rhan yn nigwyddiad cyntaf Adeiladu Dyfodol Disgleiriach mewn Technoleg y llynedd ac rwy'n falch iawn i weld fod ei lwyddiant wedi arwain at ddau ddigwyddiad pellach mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae BT Cymru yn falch i gefnogi'r digwyddiadau hyn sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y diwydiant technoleg, ble bynnag maent yn byw."

I gael mwy o wybodaeth am ddigwyddiadau Adeiladu Dyfodol Disgleiriach mewn Technoleg ac i gofrestru am eich tocynnau am ddim, ewch i: http://www.codezacademy.co.uk/digitalskills/index.html

DIWEDD

Building a Brighter Future in Tech to expand its reach across Wales

The hugely successful Building a Brighter Future in Tech is returning in 2018 with two brand new events to promote career paths in the tech industry.

Following the initial success of its inaugural event in Techniquest in 2017, the free events run by Codez Academy in partnership with Technocamps and the Welsh Government will be held in Neuadd Reichel, Bangor on St David's Day (March 1) and will also reach the Marriott Hotel, Swansea on International Woman's Day (March 8)

With support already secured from Gemma Hallet, Founder of miFuture, and BT Cymru, Building a Brighter Future in Tech will be open to anyone over the age of 16 who has an interest in learning about career opportunities in tech from experts in their fields.

During the course of the events, attendees will have the chance to participate in a number of workshops delivered by seasoned tech industry professionals around problem solving, HTML, social media presence and beginning your journey into tech. It is hoped that these workshops will answer common questions and will help break down barriers for those considering moving into tech roles.

Dean Jenkins, Founder of Codez Academy said: "We had much success at our first event, more than we initially anticipated – the turnout and feedback was truly phenomenal which made us all very proud. That's why we are so thrilled to be able to bring a Brighter Future in Tech to other areas of Wales, including North Wales and Swansea. This means we'll be able to support and encourage more people, particularly women who are looking to change careers, perhaps after having children.

"To me, the success of our initial event demonstrations the genuine requirement for additional support for those looking to take a career path in tech roles. We're very much looking forward to delivering two new events in Wales on St David's Day and International Women's Day.

"Our overall aim with these events is to help more people find their footing in their career, especially in the tech industry, and help Wales become a booming country with a strong tech industry that offers a plethora of job options."

The events are also being supported by BT Cymru. Speaking of the events, Alwen Williams, Director of BT Cymru said: "It was incredible to be involved in the inaugural Building a Brighter Future in Tech event last year and I'm very pleased to see that its success has transpired into a further two events happening across Wales. BT Cymru is proud to be supporting these events which encourage people, regardless of their demographic, to get involved in the tech industry."

For more information about the Building a Brighter Future in Tech events and to register for your free tickets, visit: http://www.codezacademy.co.uk/digitalskills/index.html

ENDS

Adeiladu Dyfodol Disgleiriach mewn Technoleg / Building a Brighter Future in Tech

Agenda

Cofrestru / Lluniaeth / Rhwydweithio –	09:30 to 10:00	– Registration / Refreshments / Networking
Cyflwyniad –	10:00 to 10:10	– Introduction
Torri'r Iâ –	10:10 to 10:15	– Ice Breaker
Panel 1 (Straeon Mewn Technoleg / Modelau Rôl) –	10:15 to 10:45	– Panel 1 (Stories in Tech / Role Models)
Gweithdai –	10:45 to 11:25	– Workshops
Egwyl / Lluniaeth / Rhwydweithio –	11:25 to 11:55	– Break / Refreshments / Networking
Gweithdai –	11:55 to 12:35	– Workshops
Gweithdai –	12:35 to 13:15	– Workshops
Cinio / Lluniaeth / Rhwydweithio –	13:15 to 13:45	– Lunch / Refreshments / Networking
Gweithdai –	13:45 to 14:25	– Workshops
Panel 2 (Llwybrau i Gyflogaeth) –	14:25 to 14:55	– Panel 2 (Routes to Employment)
Crynodeb o'r Dydd –	14:55 to 15:00	– Round-up of the Day
Diwedd –	15:00	– Close

Gweithdy / Workshops

1. Datrys Problemau / Problem Solving
2. Llofnodion HTML ar negeseuon e-bost & Codio / HTML signatures on emails & Coding
3. Presenoldeb (Cyfryngau) Cymdeithasol (CV, rhwydweithio, cyflwyno eich hunan yn bersonol ac ar-lein, eich ôl-troed ar-lein) / Social (Media) Presence (CV, networking, presenting yourself in person and online, your online footprint)
4. Dechrau ar eich Taith i Dechnoleg (deall y swyddi sydd ar gael yn y diwydiant a'r hyn mae angen iddynt ei wneud i'w cyrraedd) / Starting your Journey into Tech (Understanding the jobs available in the industry and what they need to do to get them)